# RHYBUDD O GYFARFOD

*Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*

*Emyr Williams*
*Prif Weithredwr*
*Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*
*Penrhyndeudraeth*
*Gwynedd LL48 6LF*
*Ffôn: (01766) 770274*
*E.bost: parc@eryri.llyw.cymru*

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 26 Ebrill 2024 |
| **Amser:** | 2.00 y.p. |
| **Man Cyfarfod:** | Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth a thrwy Zoom |

***Anfonir cyfarwyddiadau ymuno at yr Aelodau ar wahân***

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

***Y Cynghorwyr :***
*Dilwyn Roberts, Elfed Roberts;*

*Mrs Sarah Hattle.*

***Aelodau Annibynnol***
*Mr. Martin James Hughes, Mr. Mark Jones,*
*Mrs. Sharon Warnes.*

# R H A G L E N

1. **Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

2. **Datgan Budd**
Derbyn unrhyw ddatganiad o fudd gan yr aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

3. **Cofnodion**
Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 1af Medi 2023 yn cael eu llofnodi fel cofnod cywir (copi yma) ac yn derbyn materion sy'n codi, er gwybodaeth.

4. **Adroddiad Blynyddol i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod**
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)

5. **Adroddiad gan Archwilio Mewnol ar Gymorth a Ddarperir i Aelodau'r Awdurdod**
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)

6. **Datganiadau o Fuddiannau Aelodau**
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)

7.. **Pwyllgor y Fforwm Safonau Cenedlaethol – Dydd Llun 29 Ionawr 2024**
Derbyn cofnodion y cyfarfod, er gwybodaeth (copi yma) ynghyd ag adroddiad llafar gan yr Is-Gadeirydd.

**EITEM RHIF 3**

**PWYLLGOR SAFONAU**
**DYDD GWENER 1 MEDI 2023**

***PRESENNOL***:

**Aelod wedi ei benodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorydd Elfed P. Roberts;

**Aelod wedi ei benodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorydd Dilwyn Owain Roberts;

**Aelodau Annibynnol**
Mrs. Sharon Warnes (Cadeirydd), Mr. Martin J. Hughes,

**Swyddogion**
Mr. G. Iwan Jones, Ms Bethan Hughes, Mrs. Anwen Gaffey.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion.

1. **Ymddiheuriad**
Mrs. Sarah Hattle. Ni fydd yr ymddiheuriad yn cael ei gofnodi fel absenoldeb yn yr Adroddiad Blynyddol Presenoldeb Aelodau gan ei fod yn deillio o gais i Mrs Hattle beidio â mynychu er mwyn sicrhau cworwm oherwydd absenoldeb disgwyliedig un o'r Aelodau Annibynnol.

2. **Datgan Budd**
Datganodd y Cyng. Dilwyn Roberts a'r Cyng. Elfed Roberts fuddiant personol yn eitem 7 ar y Rhaglen, o dan baragraff 10(2)(a)(ix)(aa) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau.

3. **Cofnodion**
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2023 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

Yn codi wedi hynny,
<u>7. Ymgynghori ar Argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol (Adroddiad Richard Penn)</u>
Mewn ymateb i sylw gan Aelod mewn perthynas â chwestiwn 13, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ei fod wedi gwrando ar y recordiad o'r cyfarfod ac y gallai gadarnhau mai casgliad y Pwyllgor oedd cynyddu hyblygrwydd drwy wneud defnydd o bapurau bro, heb gael gwared ar yr opsiwn ar gyfer hysbysebu yn y wasg leol, os teimlwyd bod angen hynny.

8. <u>Pwyllgor y Fforwm Safonau Cenedlaethol</u>
Dywedodd y Cadeirydd y byddai swyddogion yn dosbarthu llythyr gyda dolenni at set o fideos ar safonau moesegol a'r cod ymddygiad fel y'i datblygwyd gan Lywodraeth Cymru, Is-adran Polisi Llywodraeth Leol, er gwybodaeth.

4. **Enwebu aelodau ar gyfer y Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl**
**Cyflwynwyd** – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i benodi tri Aelod a dau ddirprwy aelod ar y Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl.

**Adroddwyd** – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r cefndir a thrafododd yr Aelodau aelodaeth y Panel yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

**1. nodi'r adroddiad.**

**2. penodi Mr. Mark Jones, Mrs. Sarah Hattle a Mr. Martin J. Hughes fel Aelodau o'r Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl gyda'r Cynghorydd Dilwyn Roberts a'r Cynghorydd Elfed Roberts wedi'u penodi fel dirprwy aelodau.**

5. **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**Cyflwynwyd** – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i hysbysu'r Pwyllgor ar ddatblygiadau sy'n berthnasol i'r Awdurdod hwn.

**Adroddwyd** – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r cefndir, a nododd yr Aelodau adroddiad ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog y tro hwn. Croesawodd y Cadeirydd yr adroddiad a rheolaeth effeithiol yr Awdurdod gan y staff a'r Aelodau a gofynnodd am i werthfawrogiad y Pwyllgor Safonau gael ei gofnodi yn y cofnodion.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chofnodi gwerthfawrogiad y Pwyllgor Safonau am reolaeth effeithiol yr Awdurdod gan staff ac Aelodau.**

6. **Adroddiad Monitro Cwynion**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ar gwynion ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr Awdurdod yn 2022/23.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad ac amlinellodd y prif bwyntiau. Dywedwyd wrth yr Aelodau y derbynnir nifer o gwynion, ond oherwydd diwydrwydd staff yr Awdurdod sy'n ymdrin â'r cwynion yn broffesiynol ac yn brydlon, nid ydynt yn parhau i ddod yn gwynion ffurfiol. Pan ddarganfyddir bod gwasanaeth wedi methu, cymerir camau i sicrhau na fydd yr Awdurdod yn derbyn yr un gŵyn eto yn y dyfodol.

Yn codi wedi hynny, bu'r Aelodau a'r swyddogion yn trafod problemau recriwtio parhaus, yn enwedig swydd Swyddog Cynllunio Amgylchedd Hanesyddol. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol mai'r bwriad yw penodi ymgynghorwyr allanol i wneud y gwaith a oedd yn weddill ar hyn o bryd hyd nes penodir rhywun i'r swydd. Trafododd yr aelodau opsiynau ar gyfer hyfforddiant i raddedigion a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod cefnogaeth bob amser i'r staff presennol sy'n dymuno camu i fyny i swydd uwch. Teimlai'r aelodau hefyd fod angen cysylltu ag ysgolion a cholegau lleol i roi gwybod iddynt am gyfleoedd gyrfa a'r prinder sgiliau a nodwyd. Yn codi wedi hynny, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod ail farchnad sgiliau'n dod i'r amlwg a fyddai'n gofyn i'r Awdurdod brynu arbenigedd gan ddarparwyr allanol a all fod yn ddrud.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a'r staff am eu gwaith.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

7. **Caniatáu Goddefebau**

**Cyflwynwyd** – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn argymell bod y Pwyllgor Safonau yn caniatáu goddefeb cyffredinol i Aelodau Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Gofynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i'r Aelodau nodi cywiriad yn yr adroddiad Cymraeg (paragraff olaf ond un – tudalen 15) a oedd yn berthnasol "i Aelodau a benodwyd gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy" ac nid i "dau Aelod" fel y'i *cofnodwyd*.

**Adroddwyd** – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a chadarnhaodd fod y goddefebau a ganiatawyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Safonau wedi gweithio'n dda.
Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a chytunwyd i gymeradwyo'r goddefeb cyffredinol, yn unol â'r telerau a amlinellwyd yn yr adroddiad, er mwyn sicrhau y gallai'r Awdurdod gynnal ei fusnes yn effeithiol. Pan ddefnyddir y gollyngiad, mae'r Swyddog Monitro yn ei gwneud yn glir yn y cyfarfod y bydd y gollyngiad yn cael ei gymhwyso, a chaiff hyn ei gofnodi yn y cofnodion.

**PENDERFYNWYD**

1. **caniatáu goddefeb i Aelodau a benodwyd gan Gyngor Gwynedd (Sail 2[a] a [d]) i'w galluogi i gymryd rhan lawn yn y broses o benderfynu ar faterion sy'n ymwneud â Chyngor Gwynedd hyd at 31 Rhagfyr 2024 , oni bai y caiff ei ymestyn ymhellach gan benderfyniad y Pwyllgor hwn cyn 31 Rhagfyr 2024.**
2. **caniatáu goddefeb i Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Sail 2 [d]) i'w galluogi i gymryd rhan lawn wrth benderfynu ar faterion sy'n ymwneud â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hyd at 31 Rhagfyr 2024 , oni bai y caiff ei ymestyn ymhellach gan benderfyniad y Pwyllgor hwn cyn 31 Rhagfyr 2024.**

8. **Gwerthusiad y Pwyllgor**

Derbyniwyd – Adroddiad llafar gan Mrs. Sharon Warnes, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, er gwybodaeth.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod am y cefndir a phwrpas mynychu Pwyllgorau'r Awdurdod fel sylwedydd. Roedd hwn yn drefniant anffurfiol i gael dealltwriaeth o bwyllgorau, sut maent yn gweithredu a sut y maent yn gweithredu mewn perthynas â safonau deddfwriaethol a sut maent yn gweithredu fel y'i gwelir gan y cyhoedd. Ymhellach, fel Is-Gadeirydd, roedd y Cadeirydd wedi mynychu cyfweliad diweddar gydag Archwilio Cymru a oedd wedi gofyn am ei barn ar Lywodraethu'r Parciau Cenedlaethol, sut mae'r Pwyllgor Safonau yn gweithredu a'r cydweithrediad rhwng Aelodau Pwyllgorau eraill. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi bod yn brofiad cadarnhaol a chymerodd y cyfle i ddiolch i Gadeiryddion y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau. Roedd y Cadeirydd wedi dymuno canfod sut brofiad oedd aelodau'r cyhoedd o fynychu pwyllgorau o'r fath ac fe'i calonogwyd bod y ddau bwyllgor wedi gweithredu'n dda, gydag arweiniad cadarn, roedd yr aelodau wedi paratoi'n drylwyr, a nodwyd y parch a ddangoswyd at gyd-aelodau. Roedd y weithdrefn o ddatgan budd hefyd wedi gweithio'n dda. Teimlai'r Cadeirydd fod yna rwystr bychan wrth fynychu'r cyfarfodydd trwy "Zoom" gyda'r angen i arafu'r camera i osgoi'r teimlad o symud a bod y meicroffonau wedi codi sgwrs breifat rhwng dau aelod. Gwelliant arall fyddai sicrhau bod enwau Aelodau'n cael eu cyhoeddi a'u bod hefyd yn cael eu darparu ar y sgrin i gynorthwyo'r cyhoedd i ddilyn y trafodion.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i'r Cadeirydd am ei gwaith ac am ei sylwadau a chytunodd fod cyfarfodydd hybrid yn dal i fod yn waith ar y gweill. Nodwyd y byddai'r Cadeirydd yn cyflwyno Adroddiad y Cadeirydd i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf ym mis Mehefin 2024 ac erbyn hynny bydd wedi mynychu holl gyfarfodydd ffurfiol yr Awdurdod. Gellid wedyn ystyried presenoldeb aelodau eraill fel rhan o raglen waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer y dyfodol.

Yn codi wedi hynny, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y bydd Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau yn cael gwybod pryd y byddai'r oddefeb yn debygol o gael ei defnyddio mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad yn y dyfodol a byddant yn cael eu gwahodd i fynychu'r cyfarfod i arsylwi ar y goddefeb yn cael ei gymhwyso yn ymarferol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth** .

9. **Fforwm y Pwyllgor Safonau Cenedlaethol – 30 Mehefin 2023**

Derbyniwyd – Copi o'r Agenda ac adroddiad llafar gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau, er gwybodaeth.

Hysbyswyd yr aelodau bod y Cadeirydd wedi mynychu cyfarfod anghysbell Cynhadledd Safonau Cymru Gyfan, a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2023. Dywedodd am gyflwyniad gan yr Athro Mark Philp a oedd wedi cyhoeddi llyfr o'r enw “Leading in Practice” yn ddiweddar, a oedd yn ddiddorol i’w ddarllen. Hefyd, darparwyd data gan y Siaradwr Gwadd, Michele Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac fe nododd yr Aelodau fod yr Ombwdsmon yn ailystyried cylchredeg Adroddiad y Llyfr Achosion Cod Ymddygiad, sydd ddim ond ar gael yn electronig ar eu gwefan ar hyn o bryd. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd llawer o'r cyfarfod wedi bod yn berthnasol i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, ond teimlwyd y byddai'n werth aros yn rhan o'r Fforwm gan y gallai rhai elfennau fod yn fuddiol yn y dyfodol. Adroddodd y Cadeirydd ymhellach ar ymgyrch i sicrhau adnoddau ychwanegol yn genedlaethol i gefnogi Pwyllgorau Safonau, a hefyd bod ymateb y Pwyllgor Safonau i Adolygiad Penn wedi'i anfon ymlaen, gyda chyfnod ymgynghori pellach o'n blaenau, a olygai y byddai gweithredu yn ystod tymor nesaf y llywodraeth.

**PENDERFYNWYD diolch i'r Cadeirydd a nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.**

9. **Dyddiad y cyfarfod nesaf: 26 Ebrill 2024.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 15.45**

**EITEM RHIF 4**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Safonau |
| **DYDDIAD** | 26 Ebrill 2024 |
| **TEITL** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL I GYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL YR AWDURDOD** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Cytuno ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol |

## CEFNDIR

1. O fis Mai 2022 mae cylch gwaith y Pwyllgor Safonau wedi cynnwys dyletswydd statudol ychwanegol i baratoi adroddiad blynyddol i'r Awdurdod ar sut mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi'u cyflawni a darparu trosolwg o faterion ymddygiad yn gyffredinol o fewn yr Awdurdod.

2. Yn flaenorol, cytunwyd y byddai Cadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Safonau mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn paratoi'r adroddiad hwn, ond yn trafod y cynnwys arfaethedig gyda'r Pwyllgor Safonau cyn cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r Awdurdod, gyda Chadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cyflwyno'r adroddiad i'r Awdurdod yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod.

## DYLETSWYDD STATUDOL A CHYFARWYDDYD DRAFFT

3. Mae canllawiau wedi’u paratoi ar y pwnc sy’n darllen fel a ganlyn:

   *3.1. “Mae adran 63 o Ddeddf 2021 yn mewnosod adran 56B newydd yn Neddf 2000 sy’n gosod gofyniad ar bwyllgorau safonau ym mhob “awdurdod perthnasol” i lunio adroddiad blynyddol i’r awdurdod o dan sylw. Yn achos prif gyngor, mae’r gofyniad i adrodd i “yr awdurdod” yn y cyd-destun hwn yn cynnwys unrhyw gynghorau cymuned yn ei ardal.*

   *3.2. Fel isafswm, rhaid i’r adroddiad:*

      *3.2.1. ddisgrifio sut mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol;*

      *3.2.2. cynnwys crynodeb o adroddiadau ac argymhellion a wnaed neu a gyfeiriwyd at y pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymwneud ag ymchwilio i achosion honedig o dorri’r cod ymddygiad aelodau, ac unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y pwyllgor;*

*3.2.3. cynnwys crynodeb o hysbysiadau a roddwyd i'r pwyllgor gan Banel Dyfarnu Cymru, yn ymwneud â phenderfyniadau'r Panel ar achosion posibl o dorri'r cod ymddygiad ar gyfer aelodau;*

*3.2.4. disgrifio'r cyngor y mae wedi'i ddarparu ar hyfforddiant i bob aelod a sut mae hwnnw wedi'i roi ar waith, ac*

*3.2.5. yn achos prif gyngor, cynnwys asesiad y pwyllgor o sut mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd o dan adran 52 A( 1) o Ddeddf 2000 (a fewnosodwyd gan adran 62 o Ddeddf 2021) i hybu safonau ymddygiad uchel , gan gynnwys y cyngor y mae'r pwyllgor safonau wedi'i ddarparu a'r hyfforddiant y mae wedi'i awgrymu.*

*3.3. Efallai y bydd y pwyllgor hefyd am adrodd ar nifer yr achosion a ystyriwyd o dan brosesau datrys lleol. Byddai hyn yn helpu i gasglu data ar sail "Cymru gyfan", ar faterion nad ydynt yn cyrraedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.*

*3.4. Bwriad y gofyniad i lunio adroddiad blynyddol yw sicrhau bod dull rheolaidd a chyson o adrodd ac ystyried safonau ymddygiad gan aelodau awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Bwriad hyn yw hyrwyddo perchnogaeth leol a chyfrifoldeb ar y cyd gan aelodau am sicrhau safonau ymddygiad uchel o fewn eu hawdurdod. I'r perwyl hwn, mae adran 56B yn gosod rhwymedigaeth ar awdurdod perthnasol i ystyried yr adroddiad ac unrhyw argymhellion a wneir gan ei bwyllgor safonau o fewn tri mis o'i dderbyn. Bydd ystyriaeth yr awdurdod o adroddiad yn fater o gofnod cyhoeddus drwy gofnodion cyhoeddedig y cyfarfod.*

*3.5. Byddai'n arfer da i Bwyllgorau Safonau rannu eu Hadroddiadau Blynyddol gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru."*

## ADRODDIAD BLYNYDDOL

4. Os bydd rhywun yn ystyried y canllawiau drafft a'r materion y mae'n rhaid adrodd arnynt, cynigir adrodd fel a ganlyn:

4.1. Bod y pwyllgor wedi cyfarfod ddwywaith yn ystod y flwyddyn, wedi ystyried hyfforddi aelodau ar y ddau achlysur.

4.2. Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau adroddiad llafar i'r pwyllgor ar y gwaith a wnaed ganddi wrth fynychu cyfarfodydd pwyllgor yr Awdurdod. Roedd y Cadeirydd wedi dymuno canfod sut brofiad oedd aelodau'r cyhoedd yn ei gael wrth fynychu cyfarfodydd pwyllgor o'r fath ac fe'i calonogwyd bod y ddau bwyllgor wedi gweithredu'n dda, gydag arweiniad cadarn, yr oedd yr aelodau wedi'i baratoi'n drylwyr, a nodwyd y parch a ddangoswyd at gyd-aelodau. Roedd y Cadeirydd yn teimlo bod zoom yn teimlo'n anghyfforddus o bryd i'w gilydd a bod problem wedi codi gydag un achos lle'r oedd y meic wedi codi sgwrs breifat. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe bai enwau aelodau'n cael eu cyhoeddi er mwyn helpu aelodau i ddilyn y trafodion.

4.3. Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus nac at Banel Dyfarnu Cymru yn ymwneud ag ymchwilio i achosion honedig o dorri cod ymddygiad aelodau fel aelodau o'r Awdurdod hwn.

4.4. Ni fu unrhyw achosion yn ystod y flwyddyn lle mae gweithdrefn Datrysiad Lleol yr Awdurdod wedi'i rhoi ar waith.

4.5. Bu'r Pwyllgor Safonau hefyd yn ystyried Adroddiad Monitro Cwynion a oedd yn rhoi cipolwg ar natur y cwynion a dderbyniwyd ac a oedd unrhyw batrymau sefydledig yn dod i'r amlwg.
4.6. Rhoddodd y Pwyllgor Safonau oddefebau i aelodau Cyngor Gwynedd ac aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gan ganiatáu iddynt gymryd rhan yn y broses o benderfynu ar faterion dan rai amgylchiadau cyfyngedig.
4.7. Rhoddodd y Pwyllgor Safonau ystyriaeth i adroddiad a baratowyd gan Archwilio Mewnol ar y cymorth a ddarparwyd i Aelodau'r Awdurdod a bydd yn parhau i fonitro cynnydd ar hyfforddiant yn ystod y flwyddyn.
4.8. Bu'r Pwyllgor Safonau hefyd yn ystyried adroddiad a oedd yn monitro datganiadau buddiannau a wnaed gan aelodau fel rhan o'i gylch gorchwyl wrth fonitro gweithrediad y cod ymddygiad.

**GOBLYGIADAU ADNODDAU**

Dim

**ARGYMHELLIAD**

**1. Trafod cynnwys yr adroddiad.**

**2. Cytuno ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol i'w gyflwyno i'r Awdurdod fel y nodir yn Adran 4 uchod yn amodol ar unrhyw ychwanegiadau/diwygiadau y gallai'r Pwyllgor Safonau ddymuno eu gwneud iddo.**

**PAPURAU CEFNDIR**

**EITEM RHIF 5**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Safonau |
| **DYDDIAD** | 26 Ebrill 2024 |
| **TEITL** | **ADRODDIAD GAN ARCHWILIO MEWNOL AR Y CYMORTH A DDARPARWYD I AELODAU'R AWDURDOD** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | I’w nodi a’i drafod |

**CEFNDIR**

1. Fel rhan o'i raglen waith flynyddol cynhaliodd Archwilio Mewnol adolygiad o'r gefnogaeth a ddarperir i aelodau er mwyn sicrhau eu bod mewn sefyllfa i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

**YR ADRODDIAD**

2. Ynghlwm wrth yr adroddiad hwn mae copi llawn o'r Adroddiad a baratowyd gan Archwilio Mewnol.

3. Fel rhan o'r broses archwilio, dosbarthwyd holiadur i'r holl aelodau. Roedd nifer yr ymatebion yn gyffredinol isel ond o'r rhai a ymatebodd ni chodwyd unrhyw faterion gwirioneddol ac roedd yr aelodau'n hapus ar y cyfan gyda lefel y gefnogaeth a dderbyniwyd.

4. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi bod yr Awdurdod yn cyflogi swyddogion cymorth gan gynnwys y Swyddog Gwasanaethau Aelodau a oedd yn rhoi manylion i'r Archwilwyr Mewnol am yr amrywiaeth o gyfleoedd datblygu gan gynnwys y Diwrnod Datblygu Aelodau a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

5. Nododd un aelod nad oedd y gefnogaeth i’r un safon ar ôl COVID tra bod yr aelodau eraill a ymatebodd wedi nodi nad oedd gwahaniaeth gwirioneddol. Yn y cyd-destun hwn gwneir pob ymdrech i feithrin rhwydweithio rhwng aelodau ond mae'n ffaith bywyd bod y ffordd y mae'r Awdurdod yn gweithredu ers COVID-19 wedi newid gan fod yna bellach hawl a disgwyliad i gyfarfodydd gael eu cynnal trwy gyfrwng hybrid. Mae'r Awdurdod yn parhau i fuddsoddi mewn materion o'r fath ac yn ddiweddar fe ailwampiwyd ei ystafelloedd cyfarfod yn y Pencadlys a fydd yn hwyluso cyfarfodydd hybrid yn well yn y dyfodol.

## CASGLIAD YR ADRODDIAD

6. Daeth Archwilio Mewnol i'r casgliad bod lefel uchel o sicrwydd bod y mecanweithiau mewnol sydd ar waith gan yr Awdurdod yn rhoi digon o gefnogaeth i'r aelodau.

## GOBLYGIADAU ADNODDAU

Dim

## ARGYMHELLIAD

**1. Trafod cynnwys yr adroddiad.**

## PAPURAU CEFNDIR

# *ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL*

# CEFNOGAETH I AELODAU

## APCE

## 2023/24

# CEFNOGAETH I AELODAU
# APCE

## 1. Cefndir

1.1 Mae gan yr Awdurdod 18 Aelod, 9 a benodir gan Gyngor Gwynedd, 3 a benodir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a 6 aelod a benodir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r aelodau yn gyfrifol am ddarparu arweiniad effeithiol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol, am bennu ei bolisïau ac am sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion o fewn y fframwaith statudol, y fframwaith polisi a'r fframwaith ariannol a bennwyd ar ei gyfer.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd rhoi sicrwydd bod y gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau gan yr Awdurdod yn eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau'r Awdurdod o gynnig cefnogaeth tuag at eu gwaith, ynghyd â chefnogaeth llesiant, a chylchredeg holiadur er mwyn canfod barn yr Aelodau ar y gefnogaeth, a sut gellir gwella.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **UCHEL** | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

## 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Fel rhan o'r archwiliad, gwiriwyd trefniadau cefnogi Aelodau yr Awdurdod, ynghyd â chanfod barn yr Aelodau ar y trefniadau yma. Dosbarthwyd holiadur byr at 17 o'r 18 Aelod, gan fod un sedd yn wag ar amser yr archwiliad. Yn anffodus, dim ond 4 ymateb dderbyniwyd. Mae'n anodd dehongli arwyddocâd y nifer isel o ymatebion, ond o bosib yn adlewyrchu'r ffaith nad oes teimladau cryf ar y mater.

4.2 Roedd yr ymatebion dderbyniwyd yn gadarnhaol ar y cyfan, gan i bob un o'r 4 ymateb nodi eu bod yn gwybod sut i dderbyn gwybodaeth gan swyddogion, ac o'u profiad hwy bod y broses unai yn rhwydd, neu yn rhwydd iawn.

4.3 O'r ymatebion, roedd pawb o'r farn bod rhwydwaith ddigonol o gefnogaeth ymysg eu cyd-Aelodau. Mae'r Awdurdod eisoes wedi holi barn yr Aelodau am sefydlu mentora ar gyfer pob Aelod newydd, ond isel oedd y lefel o ymatebion (3 allan o 18) a drwy hynny felly isel oedd y galw am fentora. Mae'n bwysig bod rhwydwaith o gefnogaeth, gan fod pryder bod y symudiad tuag at weithio rhithiol wedi lleihau'r cyfleon i Aelodau gwrdd yn anffurfiol a hybu perthnasau cefnogol a chynhyrchiol, ymysg eu gilydd a gyda swyddogion. Mynegodd un Aelod bod hyn o bryder, gan ddatgan bod y gefnogaeth sydd ar gael ddim mor dda wrth gymharu gyda chyfnod cyn COVID a gweithio'n rhithiol. Nid oes gwahaniaeth yn ôl yr ymatebion eraill. Mae'r risgiau ynghlwm â gweithio yn rhithiol yn wybodus i'r Awdurdod, ac yn un o'r rhesymau dros gynnwys yr archwiliad yma yn y cynllun blynyddol. Fodd bynnag, dewis yr Aelodau yw mynychu cyfarfodydd yn rhithiol neu wyneb yn wyneb. Mae ffigyrau presenoldeb prif gyfarfodydd yn dangos cysondeb o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

4.4 Mynegodd pob ymateb eu bod yn ymwybodol sut mae derbyn cefnogaeth gan yr Awdurdod am eu llesiant. Cafwyd cadarnhad bod yr Awdurdod wedi bod yn treialu pecyn gwasanaeth *360-Wellbeing* gyda staff yr Awdurdod gyda'r bwriad o ymestyn y gwasanaeth i'r Aelodau os oedd y gwasanaeth yn profi'n addas. Mae cymorth iechyd meddwl, cwnsela ayyb, yn cael ei gynnig fel rhan o'r pecyn. Ym mis Chwefror 2024, cymeradwyodd y Tîm Rheoli i gynnig y pecyn *360-Wellbeing* i'r Aelodau, a bydd ar gael iddynt yn fuan.

4.5 Gwelwyd fod gan yr Awdurdod amryw o swyddogion wrth law i gynnig cefnogaeth i'r Aelodau, gan gynnwys Swyddog Gwasanaethu Aelodau, a derbyniwyd rhestr o'r holl gyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael iddynt. Mynychodd yr Archwiliwr 'ddiwrnod datblygu aelodau' fel rhan o waith ar archwiliad gwahanol, sy'n ddiwrnod pob chwe mis i'r Aelodau ddysgu ac i ymweld â gwaith yr Awdurdod, sy'n cael ei weld fel cyfle gwerthfawr i Aelodau a swyddogion gymysgu. Cafwyd cadarnhad bod yr Aelodau yn cael eu gwerthuso gan y Cadeirydd yn flynyddol ac mae unrhyw sylwadau neu anghenion yn cael eu bwydo ymlaen i'r Tîm Rheoli. Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu er mwyn cryfhau trefniadau llywodraethu, ac fel rhan o waith y Grŵp, rhannwyd holiadur er mwyn, ymysg eraill, holi am yr angen am fentora ac unrhyw ofynion hyfforddiant.

4.6 Yn dilyn yr ymatebion dderbyniwyd, er gwaethaf y niferoedd isel, gan fod dim tystiolaeth i'r gwrthwyneb wedi dod i'r amlwg, gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn y gefnogaeth sydd ar gael. Yn unfrydol, roedd yr ymatebwyr yn argymell i eraill ymgeisio i fod yn Aelod o'r Awdurdod.

4.7 Roedd yr holiadur yn gofyn cwestiwn atodol, thu hwnt cwmpas yr archwiliad yma, sef holi os yw'r Aelodau wedi cael cynnig rhodd neu letygarwch o werth materol gan unigolyn neu sefydliad allanol yn y dair blynedd diwethaf, ac os ydynt yn ymwybodol o drefniadau'r Awdurdod o ran ei ddatgelu. Mynegwyd yn y 4 ymateb eu bod yn ymwybodol o'r drefn ond dim ond un fynegodd ei fod wedi cael cynnig rhodd neu letygarwch.

**CYDNABYDDIAETH**

Yr archwiliwr ac awdur yr adroddiad hwn yw:

Bleddyn Rhys
Arweinydd Archwilio
BleddynRhys@gwynedd.llyw.cymru

Adolygwyd yr adroddiad gan:

Luned Fon Jones
Rheolwr Archwilio
LunedFonJones@gwynedd.llyw.cymru

Hoffai'r archwiliwr ddiolch i'r swyddogion perthnasol am eu cydweithrediad wrth baratoi'r adroddiad archwilio hwn.

*Luned Fôn Jones*

**LUNED FÔN JONES**
**Rheolwr Archwilio**
Mawrth 2024

**Dosbarthiad:**

**Drafft a Therfynol**
Cyfarwyddwr Corfforaethol
Pennaeth Cyllid

**Terfynol yn unig**
Prif Weithredwr
Swyddog Adran 151

**EITEM RHIF 6**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Safonau |
| **DYDDIAD** | 26 Ebrill 2024 |
| **TEITL** | **DATGANIADAU O FUDDIANNAU AELODAU** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Monitro gweithrediad y cod ymddygiad |

## CEFNDIR

Ar 3 Medi 2021 bu i'r Pwyllgor Safonau ystyried adroddiad ar y Fframwaith Moesegol a'r Canllawiau Diwygiedig a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar y Cod Ymddygiad. Fel rhan o'r camau gweithredu mynegodd yr Aelodau awydd i'r Pwyllgor Safonau fonitro gweithrediad y cod ymddygiad, a cytunwyd y byddai swyddogion yn darparu manylion datganiadau diddordeb Aelodau i'r Pwyllgor Safonau yn flynyddol.

Ynghlwm (Atodiad 1) mae copïau o'r ffurflenni Datganiad o Ddiddordeb Aelod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

Hefyd, dilynwch y ddolen i weld y Gofrestr Gyffredinol o Fuddiannau Aelodau ar wefan yr Awdurdod.

Cyhoeddiadau - Parc Cenedlaethol Eryri (llyw.cymru)

## GOBLYGIADAU ADNODDAU

Dim

## ARGYMHELLIAD

I nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.

## Anwen Gaffey

**From:** Elwyn Edwards <bodaeron@powysfadog.cymru>
**Sent:** 08 May 2023 10:51
**To:** Anwen Gaffey
**Subject:** Re: Fw: Datgan Diddordeb - Pwyllgor Cynllunio a Mynediad - 19.04.2023
**Attachments:** We sent you safe versions of your files; Ffurflen Datgan Diddordeb - Declaration of Interest Form.pdf

**Follow Up Flag:** Follow up
**Flag Status:** Completed

Mimecast Attachment Protection has deemed this file to be safe, but always exercise caution when opening files.

---

**From:** Anwen Gaffey <Anwen.Gaffey@eryri.llyw.cymru>
**Sent:** 04 May 2023 16:29
**To:** Elwyn Edwards <Cynghorydd.ElwynEdwards@eryri.llyw.cymru>
**Subject:** Datgan Diddordeb - Pwyllgor Cynllunio a Mynediad - 19.04.2023

Prynhawn da Elwyn,
Byddwn yn ddiolchgar i chi gwblhau'r ffurflen datgan diddordeb sydd ynghlwm, a'i dychwelyd i mi.
Gyda diolch,
Anwen.

**Anwen Gaffey**
**Swyddog Gwasanaethau Aelodau/Members Services Officer**
**Parc Cenedlaethol Eryri/Snowdonia National Park**
**Ffon/***Tel:* 01766 772226
**Ffacs/***Fax:* 01766 771211
**Ebost/***Email:* anwen.gaffey@eryri.llyw.cymru
www.eryri.llyw.cymru

Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg
Please write to me in Welsh or English

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r e-bost hwn ac unrhyw atodiad iddo yn gyfrinachol ac fe'i bwriedir ar gyfer y sawl a enwir arno yn unig. Gall gynnwys gwybodaeth freintiedig. Os yw wedi eich cyrraedd trwy gamgymeriad ni ellwch ei gopio, ei ddosbarthu na'i ddangos i unrhyw un arall a dylech gysylltu â'r anfonwr ar unwaith. Mae unrhyw gynnwys nad yw'n ymwneud â busnes swyddogol y corff sy'n anfon yr e-bost yn bersonol i'r awdur. Arbedwch bapur, ynni ac arian - Peidiwch argraffu'r neges yma oni bai ei bod yn hollol angenrheidiol. ------------------------------------------------------------ We welcome correspondence

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
# Snowdonia National Park Authority

## FFURFLEN DATGAN DIDDORDEB
## DECLARATION OF INTEREST FORM

**Cyfarfod / Meeting** ....…………Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ……..……………………….

**Dyddiad y Cyfarfod / Date of Meeting**…………..19 Ebrill 2023 ……………………..

**Rwyf drwy hyn yn datgan bod gennyf Ddiddordeb Personol yn yr eitem ganlynol /**
**I hereby declare that I have a Personal Interest in the following item:-**

**Pennawd yr eitem / Title of item:-** Cais NP5/53/576 – Estyniad arfaethedig i reilffordd trac cul Llyn Tegid

**Eitem Rhif/Item No**…4 ……………………………………………………………………………………

**Disgrifiwch natur y Diddordeb Personol/Describe nature of the Personal Interest:-**

Rwyf yn yn byw ym Modaeron, Heol Pen Sarn, Y Bala sydd oddeutu can llath i safle'r orsaf arfaethedig ac felly bydd yna effaith posibl ar fy eiddo.

…………………………………………………………………………………………………………………

**A yw'r diddordeb personol gyfystyr â diddordeb sy'n rhagfarnu?** **Ydi**
**Does the Personal Interest constitute a prejudicial interest?**

**Arwyddwyd/Signed**: .......Elwyn Edwards.............................................................................................

**Dyddiad/Date**: .....Mai yr 8fed 2023...................................................................................................

**Anwen Gaffey**

---

| | |
|---|---|
| **From:** | john roberts <cerddin@hotmail.com> |
| **Sent:** | 01 June 2023 10:50 |
| **To:** | Anwen Gaffey |
| **Subject:** | Emailing Ffurflen Datgan Diddordeb - Declaration of Interest Form.pdf |
| **Attachments:** | Ffurflen Datgan Diddordeb - Declaration of Interest Form.pdf |
| **Follow Up Flag:** | Follow up |
| **Flag Status:** | Flagged |

Edit, Sign and Share PDF files on the go. Get Acrobat Reader for mobile:
https://adobeacrobat.app.link/Mhhs4GmNsxb

Sent from Outlook for Android

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
# Snowdonia National Park Authority

## FFURFLEN DATGAN DIDDORDEB
## DECLARATION OF INTEREST FORM

**Cyfarfod / Meeting** ..................Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ...........................................

**Dyddiad y Cyfarfod / Date of Meeting**..............17 Mai 2023 .........................

**Rwyf drwy hyn yn datgan bod gennyf Ddiddordeb Personol yn yr eitem ganlynol / I hereby declare that I have a Personal Interest in the following item:-**

**Pennawd yr eitem / Title of item:-** ...Cais NP5/74/498A - Pennant, Llanymawddwy ...........

**Eitem Rhif/Item No**...5 (3)..........................................................................................

**Disgrifiwch natur y Diddordeb Personol/Describe nature of the Personal Interest:-**

..............................................................................................................................

.....................................................Cymydog.....................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

**A yw'r diddordeb personol gyfystyr â diddordeb sy'n rhagfarnu? Does the Personal Interest constitute a prejudicial interest?**

**Ydi / Yes** [ ]

**Nac ydi / No** [ * ]

**Arwyddwyd/Signed**: .........................................................................................

**Dyddiad/Date**: ..............................................................................................

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
# Snowdonia National Park Authority

## FFURFLEN DATGAN DIDDORDEB
## DECLARATION OF INTEREST FORM

**Cyfarfod / Meeting** SAEONAU

**Dyddiad y Cyfarfod / Date of Meeting** 1 – 9 – 23

**Rwyf drwy hyn yn datgan bod gennyf Ddiddordeb Personol yn yr eitem ganlynol / I hereby declare that I have a Personal Interest in the following item:-**

**Pennawd yr eitem / Title of item:-** CANIATAU GODDEFIADAU

**Eitem Rhif/Item No** 7

**Disgrifiwch natur y Diddordeb Personol/Describe nature of the Personal Interest:-**

Cyng SIR CONWY ← Aelod wedi'i benodi gan

**A yw'r diddordeb personol gyfystyr â diddordeb sy'n rhagfarnu? Does the Personal Interest constitute a prejudicial interest?**

**Ydi / Yes** ☐

**Nac ydi / No** ☑

**Arwyddwyd/Signed:** Dilwyn O. Roberts

**Dyddiad/Date:** 1 – 9 – 23

Cyng. Elfed Roberts

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
# Snowdonia National Park Authority

## FFURFLEN DATGAN DIDDORDEB
## DECLARATION OF INTEREST FORM

**Cyfarfod / Meeting** ..............Pwyllgor Safonau...........................................................

**Dyddiad y Cyfarfod / Date of Meeting**........1af o Fedi 2023........................................

**Rwyf drwy hyn yn datgan bod gennyf Ddiddordeb Personol yn yr eitem ganlynol / I hereby declare that I have a Personal Interest in the following item:-**

**Pennawd yr eitem / Title of item:-** .................Caniatau Goddefebau ..........................

**Eitem Rhif/Item No**................................7........................................................

**Disgrifiwch natur y Diddordeb Personol/Describe nature of the Personal Interest:-**

........................................................................................................................

..................................Aelod o Gyngor Gwynedd ..........................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

**A yw'r diddordeb personol gyfystyr â diddordeb sy'n rhagfarnu? Does the Personal Interest constitute a prejudicial interest?** **Ydi / Yes** ☐

**Nac ydi / No** X

**Arwyddwyd/Signed:** [signature]........................................................................

**Dyddiad/Date:** 1/FEDI/2003.................................................................

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
# Snowdonia National Park Authority

## FFURFLEN DATGAN DIDDORDEB
## DECLARATION OF INTEREST FORM

**Cyfarfod / Meeting** ..............Planning and Access........................................................
......................................

**Dyddiad y Cyfarfod / Date of Meeting**............6th December 2023..........................................................

**Rwyf drwy hyn yn datgan bod gennyf Ddiddordeb Personol yn yr eitem ganlynol / I hereby declare that I have a Personal Interest in the following item:-**

**Pennawd yr eitem / Title of item:-** ............**Installation of Monopole**..............................................................

**Eitem Rhif/Item No**.........................NP2/11/52L........................................................................

**Disgrifiwch natur y Diddordeb Personol/Describe nature of the Personal Interest:-**
My Partner works for BT and holds more than the suggested amount in shares for this not to be a personal and prejudicial interest.

**A yw'r diddordeb personol gyfystyr â diddordeb sy'n rhagfarnu? Ydi / Yes**
**Does the Personal Interest constitute a prejudicial interest?**

Anwyddwyd/Signed ..............J Nuttall

Dyddiad/Date:
24/1/24.........................................................

10 (2) (c) (i) # 12 (1)

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
# Snowdonia National Park Authority

## FFURFLEN DATGAN DIDDORDEB
## DECLARATION OF INTEREST FORM

**Cyfarfod / Meeting** ........ Awdurdod ........

**Dyddiad y Cyfarfod / Date of Meeting** ........ 07-02-2024 ........

**Rwyf drwy hyn yn datgan bod gennyf Ddiddordeb Personol yn yr eitem ganlynol / I hereby declare that I have a Personal Interest in the following item:-**

**Pennawd yr eitem / Title of item:-** ........

**Eitem Rhif/Item No** ........ 12 ........

**Disgrifiwch natur y Diddordeb Personol/Describe nature of the Personal Interest:-**

........ Mae y gwr, Cynan Jones, yn gweithio gyda'i grŵp yn Mhenmachno i ddatblygu tai i'r gymuned ........

**A yw'r diddordeb personol gyfystyr â diddordeb sy'n rhagfarnu? Does the Personal Interest constitute a prejudicial interest?**

Ydi / Yes ☑

Nac ydi / No ☐

**Arwyddwyd/Signed:** ........ [signature] ........

**Dyddiad/Date:** ........ 7-2-24 ........

CLILC
WLGA

**Fforwm Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau - Cymru**

**Dydd Llun 29 Ionawr 2024 am 2pm dros Teams**

**Nodiadau**

1. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

a) Croesawu Ymgynghorydd Panel newydd, Justine Cass, Dirprwy Swyddog Monitro a Chyfreithwraig, y Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

2. **Nodiadau o'r cyfarfod blaenorol 30 Mehefin 2023.**

- Byddai nodiadau a rannwyd gyda'r Pwyllgorau Safonau yn y parth cyhoeddus, ac mae'n rhaid eu cyhoeddi wrth iddynt gael eu derbyn. Dylid sicrhau fod unrhyw faterion a godir yn ymwneud ag achosion unigol parhaus neu achosion posibl i gynorthwyo gyda'r broses/datrys problemau/arfer gorau yn cael eu gwneud yn ddienw i sicrhau nad oes modd adnabod aelodau unigol na chynghorau.

3. **Michelle Morris - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Y wybodaeth ddiweddaraf.**

**Achosion Cod Ymddygiad 2023/24.**

- Cynnydd yn y nifer o achosion ers y llynedd – cynnydd o 18% – 116 o Achosion Agored
- Cynnydd mewn Achosion Wedi eu Cau
    - Cyn Asesiad +18%
    - Asesiad +2%

- Ymchwiliad +32%
- Herio “Achosion Hŷn” (dros 12 mis)
  - Chwarter (15 achos) yr ymchwiliadau ar ddiwedd Rhagfyr ‘23
  - Targed i haneru erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Atgyfeiriadau a Gwrandawiadau**

- 11 wedi dod i ben hyd at ddiwedd Rhagfyr ‘23.
- 9 yn aros am benderfyniad, 2 Banel Dyfarnu Cymru gan gynnwys 1 Apêl.
- Rhagweld rhagor o atgyfeiriadau cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Pwyntiau o Ddiddordeb - cyhoeddodd Panel Dyfarnu Cymru Ataliad Dros Dro (Gorffennaf 2023) - bydd yr adroddiad terfynol gyda’r Panel fis nesaf.

**Cwestiynau a Sylwadau**

- Dynameg y sefyllfa - “achosion hŷn” a chynnydd yn y nifer o achosion cyfredol, yn cydbwyso gyda chynnydd yn achosion y bwrdd iechyd, her yn nhermau adnoddau staffio. A yw hynny’n debygol o arafu cynnydd?
  - ¬ Roedd yn her, ac roedd y cynnydd yn nifer yr achosion o gamweinyddu yn 5% - ffigwr llai ond yng nghyd-destun llwyth achosion llawer mwy. Roedd yn her i edrych ar y defnydd gorau o adnoddau. Roedd y Pwyllgor Cyllid yn y Senedd wedi cytuno i argymell cynnydd yn y gyllideb ar gyfer dau aelod ychwanegol o staff, a gobeithio y cytunir i hyn yn y gyllideb ddrafft. Rhaid canolbwyntio ar yr achosion mwyaf difrifol, mae barn ac effaith i’w benderfynu.
- A oes yna unrhyw beth mwy y gall y Pwyllgorau Safonau ei wneud o ran helpu gyda llwyth gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
  - ¬ Mae datrysiad lleol yn bwysig, yn arbennig os oes yna batrymau yn datblygu’n lleol lle gall pethau o bosibl gael eu dirwyn i ben - mae gan Arweinwyr Grŵp rôl yn hyn o ran cael sgyrsiau ynglŷn ag ymddygiadau priodol.

- Os caiff gwrandawiad ei gynnal a phenderfyniad ei wneud gyda chosb yn cael ei roi i gynghorydd ALl, os nad yw'r achwynydd yn cytuno - beth yw'r broses ar gyfer y Pwyllgor Safonau?
    - Y broblem gyda'r achos hwn yw nad yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ymchwilio iddo cyn iddo fynd i'r Pwyllgor Safonau. Y broses arferol fyddai i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymchwilio a'i gyfeirio at y Pwyllgor Safonau i gynnal y gwrandawiad. Bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cadarnhau'r broses i'r ALl gyda'r achos hwn.
- Roedd newyddlen Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a ddosbarthwyd yn ddiweddar ar gyfer C3 yn ddefnyddiol iawn, yn arbennig y dolenni.
- Roedd yna adborth cadarnhaol gan Awdurdod Lleol yn nhermau eu hymgysylltiad gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a fu o gymorth mawr ac yn gefnogol gyda dau wrandawiad yn ddiweddar.
- Mewn achos diweddar roedd yna wrandawiad yn ymwneud â chynghorydd cymuned a'r canlyniad oedd penderfyniad i'w atal. Yn dilyn hyn, dywedodd y cynghorydd ei fod yn gynghorydd cymuned mewn cyngor cymuned gerllaw - y penderfyniad oedd ei atal ar gyfer y cyngor cymuned yr oedd y gŵyn yn ymwneud ag ef yn unig. A oedd hwn yn benderfyniad anghywir?
    - Byddai'r amgylchiadau a grybwyllwyd yn flaenorol mewn achos gwahanol wedi bod yn wahanol, ac os oedd y Pwyllgor Safonau wedi ceisio cyngor gan dîm Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, byddai eu cyngor yn gywir.

## 4. <u>Cyd-bwyllgorau Corfforedig a Chyd-bwyllgorau Safonau – Iwan Gwilym Evans</u>

- Gweler y cyflwyniad sydd ynghlwm.

CJC_Overview-Biling
ual - Fforwm Forum.p

**Cwestiynau a sylwadau**

- Mae Powys a Cheredigion yn un Cyd-bwyllgor Corfforedig – mae'n ymddangos fod yna ddyblygu o ran ymdrech a chost. Beth yw eich safbwyntiau ar ddau Bwyllgor Safonau ar wahân?
  - Mae'r rheoliadau yn golygu fod rhaid sefydlu Pwyllgor Safonau wrth symud ymlaen. Mae hyn yn adlewyrchu ymagwedd Llywodraeth Cymru o ran y Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel corff datblygu a allai fod â mwy o ddylanwad.
- Mae Aelodau wedi eu dyrannu i Awdurdod y Parciau Cenedlaethol, roedd ffurfio'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi arwain at feddwl am y pwerau sydd gan Bwyllgor Safonau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae rhai o'u haelodau wedi eu dyrannu i'r Awdurdodau ac nid oes gan y Pwyllgorau Safonau yr un pwerau o ran cosbi.
  - Bydd ganddynt yr un pwerau â Phwyllgor Safonau awdurdod lleol ond byddant ond yn ymdrin â materion sy'n berthnasol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig sy'n aelod.

**CAM GWEITHREDU: Sleidiau PowerPoint i'w dosbarthu i'r Cadeiryddion. IE, CT**

**CAM GWEITHREDU: Ystyried sut mae'r Fforwm yn ymgysylltu gyda'r protocolau Safonau Cyd-bwyllgorau Corfforedig sy'n datblygu a grwpiau cyn y cyfarfod nesaf. CW, JC, CT.**

5. **Adnoddau ar gyfer Pwyllgorau Safonau**

- Materion yn ymwneud ag adnoddau i sicrhau eu bod yn addas i'r diben i ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen.
- Colli'r cyfle i ymateb i adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol eleni ond eisiau edrych ar sut rydym ni'n ymgysylltu er mwyn symud ymlaen. Ni ymgynghorwyd ag aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Safonau fel

rhan o ymgysylltiad budd-ddeiliaid Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Nid oedd yn ymddangos fod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn canolbwyntio ar daliadau i aelodau cyfetholedig.

- Mae'r penderfyniad yn ymwneud â dehongli cydnabyddiaeth ariannol yn wahanol ar draws y Cynghorau yn ogystal â lefelau gwahanol o gefnogaeth e.e. darparu offer TG a chyfeiriad e-bost. A ydym ni eisiau mapio'r gwahaniaethau rhwng cynghorau?
- A ydym ni eisiau ymgysylltu gyda'r mater, os ydym ni a ydym ni'n gofyn i rywun o Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i ddod draw, gan fapio i fwydo i mewn i adroddiad yn y dyfodol?

**<u>Sylwadau</u>**

- Cefnogi'r safbwyntiau'n llawn yn nhermau ymgysylltu gyda Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Y ffordd ymlaen yw i wneud ychydig o fapio er mwyn sicrhau fod yna ddealltwriaeth o'r materion.
- Roedd cysondeb gyda gweithredu cydnabyddiaeth ariannol a chefnogaeth yn bwysig i sicrhau ei fod yn denu pobl i'r rôl. Gall monitro swyddi gwag fod yn ddangosydd y byddai Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei ystyried fel rhan o'u gwaith.
- Swyddogion monitro â diddordeb mewn newidiadau wrth symud ymlaen, yn nhermau cyfraddau yr awr ayb, sicrhau fod yna senarios gwahanol yn yr ymarfer mapio.
- Ymgynghorodd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol gyda Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn Abertawe - roedd yn cefnogi'r gyfradd fesul awr. Byddai yn awr ychwanegol - pe bai'n mynd dros y gyfradd ddydd o 8 awr, byddai'n galluogi tâl ychwanegol dros y gyfradd diwrnod llawn. Penaethiaid y Gwasanaethau Democrataidd i ddweud am ba hyd y bydd y cyfarfod yn parhau, os yw Penaethiaid y Gwasanaethau Democrataidd wedi dweud 8 awr ond mai dim ond am 30 munud y mae'r cyfarfod yn para, mae Penaethiaid y Gwasanaethau Democrataidd yn dal i orfod talu 8 awr i sicrhau nad oedd yna unrhyw anfantais i'r aelodau a fyddai o bosibl wedi cadw eu

dyddiaduron yn glir gan arwain at gostau colli cyfleoedd neu gostau ychwanegol a ysgwyddir.

**CAM GWEITHREDU: Amlygu'r mater gyda Swyddogion Monitro yng nghyfarfod eu grŵp llywodraethu cenedlaethol. JC, CT.**

**CAM GWEITHREDU: Ymateb i adroddiad 2024/25 gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, sut ddylai'r rôl fod mewn ymgynghoriadau a thrafodaethau yn y dyfodol.  Angen sicrhau fod y fforwm yn rhan o'r drafodaeth ar gyfer y dyfodol Pawb.**

**CAM GWEITHREDU: Cyhoeddi'r gyfradd fesul awr - sut yr ystyrir presenoldeb a sut caiff ei ariannu - byddai cysondeb ar draws Cymru yn cael ei groesawu, angen ystyried hyn Pawb.**

**CAM GWEITHREDU: Y cwestiwn ehangach, sut mae'r fforwm yn ymgysylltu wrth symud ymlaen? Y mecanwaith yn hytrach nag ymarferoldeb Pawb.**

**CAM GWEITHREDU: Gwahodd Cadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i'r cyfarfod nesaf CT.**

**CAM GWEITHREDU: Julia Hughes i rannu'r templed mapio gyda'r Fforwm JH.**

6. **<u>Protocolau datrys lleol, sut maent yn gweithredu yn eich ardal chi ac a ydynt yn effeithiol?</u>**

- Dywedodd adborth gan y cyngor nad oedd datrysiad lleol wedi ei ddefnyddio'n aml. Mewn sefyllfaoedd lle roedd wedi ei ddefnyddio roedd yn fath o gyfarfod cyfryngu a arweiniodd at ymddiheuriad neu ysgwyd llaw, gyda'r ddwy garfan yn symud ymlaen, Nid oedd rhai aelodau eisiau mynd lawr y llwybr o ddatrysiad lleol ac roeddent wedi penderfynu bod yn gwrtais gyda'i gilydd. Roedd o ddiddordeb i Arweinwyr grŵp i ymwneud â'r broses hon i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'n gweithio os yw'r ddwy garfan eisiau gwneud i hyn weithio.

- Wedi'i argymell i 26 o gynghorau tref a chymuned ym Mro Morgannwg ac roedd pob un ac eithrio un wedi mabwysiadu'r protocol. Roedd yn ymddangos fel pe bai'n gweithio'n dda.
- Mae llawer yn dibynnu ar wleidyddiaeth leol yn yr ardal, p'un ai yw'r cyfansoddiad yn cynnwys proses eglur ar gyfer protocol datrysiad lleol a dynameg perthnasoedd lleol. Roedd materion weithiau'n cynyddu o amgylch etholiadau ac nid yw bob amser yn hawdd i symud materion ymlaen gan ddefnyddio protocol lleol.
- Os nad yw'n bosibl i ddatrys materion yn anffurfiol a'u bod yn y pen draw yn arwain at wrandawiad, fe all honno fod yn broses anodd i'w rheoli a gall olygu amser a chost. Roedd y dewis o ddatrysiad anffurfiol yn well pryd bynnag fo hynny'n bosibl.
- Nid oedd rhai cynlluniau datrys lleol yn galluogi apêl.

## 7. <u>Eitemau a godwyd gan Grŵp y Swyddogion Monitro - JC</u>

a) Dyletswydd Arweinwyr Grŵp i annog safonau da – potensial ar gyfer gwrthdaro buddiannau canfyddedig, asesu eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu gwrthwynebwyr gwleidyddol pe baent yn ymuno â'u Pwyllgor Safonau.

- Cyfeiriwyd at senario lle cyflwynwyd hyn i'r Swyddog Monitro. Dwy enghraifft sy'n wahanol iawn, ar un pwyllgor safonau - daeth cynghorydd sir ar y pwyllgor safonau yn arweinydd grŵp a dywedodd ei fod nawr yn golygu gwrthdaro buddiannau ac ymddiswyddodd. Pwyllgor Safonau arall sydd ag arweinydd grŵp ar y pwyllgor, ddim yn ystyried ymddiswyddo.
  - Safbwynt personol yw ei fod yn wrthdaro buddiannau. Nid yw'r unigolyn â buddiant mewn cyngor arall yn bresennol mewn cyfarfodydd, nid yw'n anfon ymddiheuriadau ac nid yw'n anfon rhywun yn ei le. Mae llythyr wedi ei anfon at arweinydd y grŵp gan y cadeirydd yn nodi hyn.

**CAM GWEITHREDU: Parhaus, ei osod ar raglen y cyfarfod nesaf.**

b) Y cynnydd ar fabwysiadu'r trothwy cyffredin y cytunwyd arno o £25 ar gyfer cofrestru rhoddion a lletygarwch. Ni ystyrir hyn yn fater.

- Mae dau o'r pwyllgorau wedi cytuno ar £25, penderfynodd y pwyllgor democrataidd cyfansoddiadol aros ar £10.

c) A oes gan awdurdodau unrhyw ganllawiau ar y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol y tu hwnt i'r hyn sydd wedi ei gyhoeddi gan CLlLC.
**CAM GWEITHREDU Dosbarthu'r ddolen i ganllawiau CLlLC CT.**
**https://www.wlga.cymru/social-media-and-online-abuse**

**CAM GWEITHREDU Sicrhau fod manylion hyfforddiant seiber CLlLC ar gael CT.**

d) P'un ai yw awdurdodau yn annog eu cynghorau tref a chymuned i lofnodi'r addewid cwrteisi a pharch. Os nad ydynt wedi ei lofnodi p'un ai a fyddent yn ystyried gwneud hynny.

- Mae Sir y Fflint yn cynnal cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau unwaith y flwyddyn gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned. Maent o fudd a chaiff presenoldeb ei annog a'i hyrwyddo.

**8. Hyfforddiant ar gyfer Cadeiryddion y Pwyllgor Safonau**

- E-bost am ddau sesiwn hyfforddi.
- Sesiwn cyffredinol ar sgiliau cadeirio – 12 Chwefror 2pm-4pm.
- Hyfforddiant yn ymwneud â sut i gynnal gwrandawiadau - darparwr allanol sy'n gallu hwyluso'r hyfforddiant ar ran CLlLC. Yn ddelfrydol fe hoffem ddarparu'r hyfforddiant hwn cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Fel arall efallai y bydd angen i ni ei drefnu ym mis Ebrill.

**9. Unrhyw Fater Arall**

- A oes angen i aelodau'r Pwyllgor Safonau gael gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)?
  - Nid oes angen i'r Cadeiryddion sy'n bresennol gael gwiriad GDG ar gyfer eu rôl.

**CAM GWEITHREDU Y wybodaeth ddiweddaraf am y rheolau o ran gwiriadau GDG i'w darparu yn y cyfarfod nesaf JC.**

**10. <u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</u>**

- Dydd Llun 24 Mehefin 2024.